

Sut ydym yn mynd i'r afael â'n proses adolygu

Adroddiad ar ein hymgyngoriad
Awst 2021



Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Rydym yn goruchwyllo gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr.

Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau. I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o [reoleiddio cyffyrddiad cywir](#).

Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoledd y gweithlu iechyd a gofal. Ein gwerthoedd sefydliad yw: cywirdeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd yn ganolog i'n gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Pwy ymatebodd?	6
Beth ddywedodd ymatebwyr wrthym	6
Y camau nesaf	23

Crynodeb gweithredol

Y broses o adolygu perfformiad

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i adrodd i'r Senedd bob blwyddyn pa mor dda y mae'r rheolyddion yr ydym yn eu goruchwyllo yn amddiffyn y cyhoedd.¹ Rydym yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy asesu perfformiad y rheolyddion hyn yn erbyn ein [Safonau Rheoleiddio Da](#). Mae'r Safonau hyn yn nodi'r canlyniadau yr ydym yn disgwyl i reolyddion eu cyflawni. Rydym yn galw ein hasesiadau yn 'adolygiadau perfformiad' ac yn eu cynnal ar gylchred 12 mis treigl ar gyfer pob rheoleiddiwr.

Rydym wedi bod yn rhedeg ein proses gyfredol o adolygiadau perfformiad ers 2016, er i ni ddiweddarau ein *Safonau Rheoleiddio Da* ar ddiwedd 2019. Yn y pum mlynedd diwethaf, a gan fyfyrto ar adborth gan randdeiliaid, rydym wedi nodi nifer o feysydd y credwn y gellid eu gwella. Fe wnaethom benderfynu ei bod yn bryd edrych eto ar ein dull o adolygu perfformiad i sicrhau bod ein proses yn parhau i fod yn briodol yng ngoleuni'r Safonau newydd ac yn parhau i fod yn gymesur ac yn effeithiol.

Yr ymgynghoriad a'r ymatebion

Roedd yr ymgynghoriad ar ein dull o gyflawni adolygiadau perfformiad yn rhedeg rhwng 10 Rhagfyr 2020 a 4 Mawrth 2021. Gofynnwyd 14 cwestiwn a chawsom 34 ymateb, gan gynnwys gan reolyddion yr ydym yn eu goruchwyllo, sefydliadau'r llywodraeth, aelodau o'r cyhoedd, unigolion cofrestredig a nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys elusennau sy'n cefnogi cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, undebau llafur a chyrrff proffesiynol, sefydliadau amddiffyn a grwpiau cymorth rhai sydd wedi cofrestru.

Ceisiom farn rhanddeiliaid ar sut y gallem wella ein proses adolygu perfformiad. Gofynnwyd beth ddylai ein hadolygiadau ei gwmpasu, eu hamseriad, sut y gallwn nodi risg orau, ac am y system a ddefnyddiwn ar gyfer asesu perfformiad. Gofynnwyd hefyd a ddylem wneud mwy i gefnogi gwelliant gan gynnwys trwy adolygiadau thematig a sut y gallwn ystyried barn rhanddeiliaid orau.

Cefnogodd ymatebwyr yr ymgynghoriad broses fwy ystwyth a hyblyg, ynghyd â mwy o dryloywder ynghylch y broses benderfynu, y byddwn yn ei datblygu yn ein gwaith datblygu. Roedd cefnogaeth ar gyfer mwy o ymgysylltiad â'r rheolyddion, a allai helpu i wella tryloywder ein holl brosesau.

Cytunodd ymatebwyr y dylai ein hadolygiadau perfformiad fod yn seiliedig ar risg ac yn gymesur, gan ddadlau y dylent gydnabod bod y rheolyddion yn wynebu gwahanol heriau ac yn gweithredu mewn gwahanol gyd-destunau.

¹ Mae paragraff 16 (1A)(b) o Ddeddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd, yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod baratoi adroddiad ar arfer ei swyddogaethau bob blwyddyn ariannol sy'n nodi 'i ba raddau, ym marn yr Awdurdod, mae pob corff rheoleiddio wedi cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodir arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles [defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr, defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau eraill o'r cyhoedd]'.

Gofynnwyd i randdeiliaid a ddylem barhau i edrych ar bob Safon bob blwyddyn; roedd yr ymateb a gawsom yn gymysg gyda rhai yn dweud y dylai'r dull presennol barhau ac eraill yn cefnogi newid.

Roedd y rhan fwyaf o reolyddion o'r farn y byddai adolygiad bob pum mlynedd yn rhesymol, ond roedd sefydliadau eraill yn teimlo bod hyn yn rhy anaml ac y byddai adolygiad bob dwy i dair blynedd yn fwy priodol. Bydd angen rhyw fath o fonitro ar gyfer unrhyw gylch sy'n hwy na'n proses flynyddol gyfredol, sy'n caniatáu inni gyflawni ein dyletswydd i adrodd yn flynyddol ar berfformiad y rheolyddion yn hyderus.

Cafwyd cefnogaeth gan bob grŵp o ymatebwyr i ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys sgysiau mwy penodol a rheolaidd gyda'r rheolyddion, ymgysylltu â'r rhai sydd wedi cofrestru, holiaduron mwy strwythuredig i gael adborth am risgiau penodol i broffesiwn a mwy o gyfranogiad cleifion yn y broses.

Gofynnwyd a ddylem fabwysiadu dull newydd i ddisodli'r system ddeuaidd 'bodlonwyd' neu 'ni fodlonwyd' gyfredol i asesu perfformiad. Roedd cefnogaeth inni ddarparu mwy o eglurder a manylder ynghylch perfformiad yn erbyn safonau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid newid y system bresennol ond nid oedd consensws clir ar system amgen.

Cefnogodd ymatebwyr ein bod yn newid ein dull gweithredu fel ein bod yn nodi ac yn rhannu meysydd arfer da ac yn gwneud mwy i annog a chefnogi gwelliant, er enghraifft trwy seminarau a rhannu dysgu.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid inni gynnal adolygiadau thematig, ond roeddent hefyd yn amheus o'r goblygiadau adnoddau i reolyddion. Awgrymodd ymatebwyr y gallem ddefnyddio adolygiadau thematig i nodi meysydd arfer da neu risgiau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, roedd amheuan y byddai tynnu sylw at feysydd arfer da gan un rheoleiddiwr yn awgrymu bod hyn yn ffurfio argymhellid i reolyddion eraill ei fabwysiadu.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at effaith ein cynigion cyffredinol ar adnoddau rheolyddion ac y gallent gynyddu costau i unigolion cofrestredig. Fe wnaethant ychwanegu bod angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid fod yn gynhwysol ac yn hygyrch, ac y gallai adolygiadau llai aml effeithio ar rai grwpiau â nodweddion gwarchoddedig pe bai Safonau addasrwydd i ymarfer neu gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, er enghraifft, yn cael eu hadolygu'n llai aml.

Y camau nesaf

Mae'r ymatebion wedi darparu cefnogaeth werthfawr a syniadau newydd, yn ogystal â'n gwneud yn ymwybodol o gyfyngiadau posibl i'r newidiadau rydym wedi'u cynnig. Rydym wedi eu hystyried i gyd i sicrhau ein bod yn gwneud y newidiadau cywir i'n hadolygiadau perfformiad sy'n amddiffyn y cyhoedd orau.

O fis Ionawr 2022, byddwn yn gwneud newidiadau i'n prosesau adolygu perfformiad i feysydd yr ydym ni ac eraill wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu gwella yn y gorffennol. Byddant hefyd yn helpu i wneud ein hasesiadau yn fwy cadarn a'r canlyniadau'n gliriach ac yn fwy hygyrch. Byddwn yn:

- ▶ Diwygio ein prosesau er mwyn i ni wneud mwy o waith yn ystod y flwyddyn ac yn ymwneud yn fwy rheolaidd â rheolyddion, gyda'r nod o gyhoeddi ein hadroddiadau o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod yr ydym yn adrodd arno
- ▶ Ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid
- ▶ Gwneud ein hadroddiadau yn gliriach, yn fwy cryno ac yn fwy defnyddiol wrth hyrwyddo gwelliannau mewn rheoleiddio
- ▶ Datblygu ein dealltwriaeth o risg gan gynnwys risgiau penodol i broffesiwn a defnyddio hyn i lywio cwmpas ein hadolygiadau.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn datblygu manylion dull wedi'i dargedu'n fwy lle byddem yn canolbwyntio ein hadnoddau yn fwy cymesur ar feysydd risg a phryderon. Gallai hyn gynnwys adolygiad manwl o berfformiad rheoleiddiwr ym mlwyddyn gyntaf cylch tair i bum mlynedd, ac yna monitro blynyddol ar sail risg, a fyddai'n caniatáu inni gynnal adolygiadau wedi'u targedu lle nodwyd yr angen am y rhain. Byddem yn parhau i adrodd i'r Senedd bob blwyddyn ar berfformiad pob rheoleiddiwr, ac yn ystyried y byddai'r dull hwn yn caniatáu inni fod yn hyderus yn ein hadroddiadau wrth sicrhau bod ein hadnoddau'n canolbwyntio mwy ar y meysydd sydd â'r risg fwyaf. Rhagwelwn y byddai dull o'r fath yn ein galluogi i ddefnyddio rhai o'n hadnoddau cyfredol i wneud mwy o waith gwella.

Mae angen datblygu a chynllunio ymhellach ar gyfer y dull newydd hwn. Byddwn yn gweithio ar fanylion y dull hwn ac yn ymgynghori yn ystod gweddill 2021 gyda'r bwriad o gyflwyno'r newidiadau ym mis Ebrill 2022.

Rydym wedi ystyried yn fanwl rinweddau symud i ffwrdd o'n system ddeuaidd 'bodlonwyd/ni fodlonwyd' o wneud penderfyniadau ar gyfer pob Safon. Nid yw hwn yn benderfyniad hawdd ac nid oes un ateb 'cywir'. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid symud i ddull mwy cignoeth a oedd yn adlewyrchu ein barn am 'gyfeiriad teithio' y rheoleiddiwr. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y dull deuaidd yn darparu canlyniad cliriach ac yn haws i randdeiliaid ei ddeall. Mae manteision cryf mewn arwydd clir ynghylch a yw perfformiad yn cwrdd â'r trothwy ai peidio. Nodwn, ar ei ben ei hun, efallai na fydd system raddio fwy cignoeth yn darparu mwy o eglurder ynghylch cyfeiriad teithio, gan gynnwys gwelliannau a phryderon sy'n dod i'r amlwg. Credwn y bydd gwelliannau yn ein hadroddiadau, ein prosesau a'n hymgysylltiad yn gwneud y rhesymau dros ein penderfyniadau yn gliriach a hefyd yn gwneud gwelliannau neu bryderon sy'n dod i'r amlwg yn glir ac yn hawdd i'w hadnabod ar gyfer rheolyddion a darllenwyr eraill. Os yw Safon yn cael ei bodloni ai peidio, byddwn yn esbonio'n glir iawn pam a byddwn yn tynnu sylw, lle bo hynny'n briodol, at arfer da, cyfeiriad teithio a meysydd i'w gwella ymhellach.

Rydym o'r farn bod rôl i'r Awdurdod ddarparu trosolwg o broblemau unigol yn y sector a darparu arweiniad. Mae yna amrywiaeth o offer y gallwn eu defnyddio i gyflawni hyn. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau perfformiad, prosiectau ar faterion unigol (er enghraifft ein Canllaw ar Wrandawiadau Rhithiol diweddar) ac adolygiadau thematig. Byddwn yn anelu at fabwysiadu'r broses fwyaf addas a chymesur ar gyfer pob mater.

Ers i'n hymgynghoriad gau, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei Phapur Gwyn yn nodi newidiadau deddfwriaethol ar gyfer Mesur Iechyd a Gofal ar 11 Chwefror 2021.

Ar 24 Mawrth 2021, fe gyhoeddodd ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio rheoleiddio gweithiwr iechyd proffesiynol. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod ein proses tymor hwy yn addasu i'r diwygiadau ac yn sicrhau bod rheolyddion yn cyflawni eu dyletswyddau i amddiffyn y cyhoedd yn briodol ac yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn ystod y cyfnod diwygio.

Pwy ymatebodd?

Lansiwyd ein hymgyngghoriad ar 10 Rhagfyr 2020 a pharhaodd tan 4 Mawrth 2021. Gofynnwyd 14 cwestiwn a chawsom 34 ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys gan reolyddion yr ydym yn eu goruchwyllo, sefydliadau'r llywodraeth, aelodau o'r cyhoedd, rhai sydd wedi cofrestru a sefydliadau eraill. Y sefydliadau eraill y clywsom ganddynt oedd elusennau, sefydliadau iechyd y llywodraeth, cwmni cyfreithiol, undebau llafur/cyrff proffesiynol, grwpiau cymorth unigolion cofrestredig a sefydliadau amddiffyn. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion fel a ganlyn:

- Rheolyddion – 10 ymateb
- Aelodau o'r cyhoedd – 8 ymateb
- Sefydliadau eraill – 16 ymateb
 - Dwy elusen sy'n cefnogi cleifion a defnyddwyr gwasanaeth
 - Dau sefydliad iechyd y llywodraeth
 - Un cwmni cyfreithiol
 - Chwe undeb llafur/corff proffesiynol
 - Tri grŵp cymorth unigolion sydd wedi cofrestru
 - Dau sefydliad amddiffyn

Beth ddywedodd ymatebwyr wrthym

Cwestiwn 1 – A oes yna unrhyw bryderon eraill ynghylch y broses gyfredol o adolygu perfformiad nad ydym wedi eu nodi yma?

- 1.1. Yn ein dogfen ymgynghori fe amlinellom y broses gyfredol o adolygu perfformiad, a gyflwynwyd yn 2016. Fe ddisgrifiom yr adborth a gawsom trwy ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori a chanfyddiadau ein hadolygiad desg o gynlluniau eraill. Lluniodd yr wybodaeth hon y cwestiynau a ofynnwyd gennym yn yr ymgynghoriad. Gwnaethom hefyd nodi meysydd i'w gwella yn y broses gyfredol. Gofynnem a ddylem barhau i gynnal adolygiadau blynyddol, ac i gael barn am ein defnydd o'r data a gasglwn, ymgysylltu â rheolyddion a rhanddeiliaid eraill, mwy o ffocws ar ganlyniadau, dull mwy cignoeth o ddisgrifio perfformiad, a rhannu ein barn ar ymarfer da. Gofynnem a oes meysydd eraill o'n proses gyfredol y gellid eu gwella.
- 1.2. Nododd pump ar hugain o ymatebwyr agweddau ar y broses adolygu perfformiad y credant y gellid eu gwella. Roedd llawer o reolyddion o'r farn y dylem fod yn fwy agored ynghylch sut rydym yn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y meini prawf a ddefnyddiwn a'r dystiolaeth yr ydym yn dibynnu arni i benderfynu a yw Safon yn cael ei bodloni. Dywedodd rheolyddion wrthym

hefyd yr hoffent inni ymgysylltu â hwy yn amlach i ddatrys materion lefel is a chryfhau ein perthynas.

- 1.3. Dywedodd ymatebwyr hefyd y dylai ein prosesau adolygu perfformiad fod yn hyblyg ac ystwyth; pwynt sydd wedi'i amlgu gan y pandemig. Fe nodont at y ffaith nad yw'r amser a gymerir inni gyhoeddi adroddiadau yn cefnogi dysgu gan fod y rhain yn aml yn cael eu cyhoeddi ymhell ar ôl diwedd y cyfnod adolygu. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylem wella sut rydym yn casglu ac yn defnyddio adborth rhanddeiliaid yn ein hadolygiadau perfformiad ac y dylem ddefnyddio ystod ehangach o adborth a'i gasglu mewn ffordd fwy strwythuredig.
- 1.4. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd cydnabod y gwahaniaethau rhwng rheolyddion a'r cyd-destunau y maent yn gweithredu ynddynt. Nododd rhai hefyd y gellid gwella naws ein hadroddiadau i'w gwneud yn fwy hygyrch.

Cwestiwn 2 – A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein rôl neu'n dull cyffredinol o gynnal adolygiad perfformiad fel y sefydlwyd yma?

- 2.1. Roedd rheolyddion o'r farn y dylai ffocws adolygiadau perfformiad fod ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau a bod risg a chymesuredd yn ffactorau pwysig. Ailadroddodd rhai eu cefnogaeth i ymgysylltu'n amlach â'r Awdurdod trwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethant hefyd geisio mwy o eglurder ynghylch pwrpas a nod y broses adolygu perfformiad y tu hwnt i'r ddyletswydd statudol.
- 2.2. Ysgogodd y cwestiwn hwn reolyddion i dynnu sylw eto at y gwahaniaethau rhyngddynt, efallai na fydd dull un rheoleiddiwr yn addas ar gyfer un arall a bod rheolyddion yn gweithredu mewn gwahanol gyd-destunau. Clywsom farn hefyd ei bod yn bosibl nad yw'r hyn sy'n flaenoriaeth i un rheoleiddiwr yn flaenoriaeth i un arall.

“Mae pob rheoleiddiwr yn y safle gorau i deilwra ei systemau rheoleiddio i'r proffesiynau mae'n eu rheoleiddio a'r risg maent yn cyflwyno. Mae hyn yn allweddol oherwydd y gwahanol gyd-destunau ble darperir gofal iechyd a gan bwy, sy'n achosi at amrywiol broffiliau risg ar gyfer y proffesiynau” (GOC).


- 2.3. Cawsom ychydig o adborth gan reolyddion am y broses casglu tystiolaeth. Teimlai un rheoleiddiwr fod gorddibyniaeth ar ddata i lywio asesiadau a nododd un arall y gellid gwneud gwelliannau i'r broses o gasglu tystiolaeth yn gynnar yn y broses er mwyn galluogi rheolyddion i rannu arfer da.
- 2.4. Fe wnaeth sefydliadau hefyd ein cefnogi i gymryd agwedd sy'n seiliedig ar risg, gan fod yn glir ar y cyd-destunau y mae'r rheolyddion yn gweithio ynddynt a chynyddu ymgysylltiad â rheolyddion.

“Gallai ymgysylltu rheolaidd leihau'r cyfnod amser cyffredinol ar gyfer yr adolygiad perfformiad, gan y byddai gan y PSA set ehangach o ddata i weithio â hi a byddai'n gallu delio â meysydd gofid cyn ail gyfnod adolygiad.” (HEE)

- 2.5. Yn ogystal, nododd un ymatebydd fod rhai safbwyntiau ar goll o'r broses adolygu perfformiad, er enghraifft gan unigolion cofrestredig a chyrrff cynrychioliadol. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylem ystyried ystod ehangach o dystiolaeth.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n credu y dylem ddal i edrych ar berfformiad y rheolyddion yn erbyn yr holl Safonau pob blwyddyn, neu a allai cwmpas yr adolygiadau fod yn fwy targedig?

- 3.1. Cawsom 27 ymateb i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys gan yr holl reolyddion. Roedd naw ymatebydd o'r farn y dylai'r dull presennol barhau, gan gynnwys rhai rheolyddion, aelodau'r cyhoedd a sefydliadau eraill. Nid oedd deg ymatebydd o wahanol grwpiau yn credu bod angen i ni barhau i edrych ar berfformiad y rheolyddion yn erbyn yr holl Safonau bob blwyddyn. Roedd pob grŵp yn cefnogi dull mwy targedig a chymesur.



- 3.2. Dadleuodd dau reoleiddiwr y dylem barhau i edrych ar eu perfformiad yn erbyn yr holl Safonau bob blwyddyn, roedd pedwar o'r farn na ddylem a rhoddodd pedwar ymateb cymysg. Ymhelaethodd llawer o reolyddion ar eu hymatebion trwy ddarparu adborth a syniadau pellach.
- 3.3. Credai'r rheolyddion a gefnogodd ein bod yn parhau â'r dull cyfredol o adolygu pob Safon bob blwyddyn y dylai cwmpas a maint yr adolygiadau fod yn seiliedig ar risg ac yn gymesur, a dim ond os oes angen y dylid gofyn am

wybodaeth bellach. Dywedodd un wrthym hefyd y gallai newid i'r dull presennol olygu nad yw materion yn cael eu nodi mewn modd amserol ac, pe bai adroddiadau'n canolbwyntio ar y Safonau lle roedd pryderon yn unig, gallai'r adroddiadau fod yn rhy negyddol a chreu perygl o niweidio hyder y cyhoedd.

- 3.4. Credai'r pedwar rheoleiddiwr a gefnogodd newid yn y dull gweithredu y dylai'r adolygiadau fod yn fwy targedig a chymesur. Dywedodd un, oherwydd yr amser sydd ei angen arnynt i newid, nad yw edrych ar yr holl Safonau bob blwyddyn yn gadael digon o le i wella. Roedd un arall yn cefnogi archwiliadau llai aml o'r holl Safonau, ond y byddai angen mwy o wybodaeth am y dull gweithredu. Roedd rhai rheolyddion o'r farn y gallai newid i'r dull presennol ei gwneud yn llai beichus i reolyddion ac y gallai ryddhau adnoddau ar gyfer gwaith arall.
- 3.5. Roedd barn rheolyddion eraill yn fwy cymysg. Awgrymont y gallai fod angen adolygiadau lle mae arwyddion o newid mewn risg ac y dylai adroddiadau ei gwneud yn glir bod Safonau nad ydynt yn destun adolygiad llawn wedi'u bodloni. Dywedodd rheoleiddiwr arall, er y byddai dull wedi'i dargedu yn fwy cymesur, gallai arwain at yr adolygiad yn canolbwyntio ar risgiau y mae'r rheoleiddiwr eisoes yn ymwybodol ohonynt, yn hytrach na nodi risgiau newydd.
- 3.6. Roedd safbwyntiau ymhlith ymatebwyr eraill yn amrywio. Dywedodd y rhai a oedd o'r farn y dylem barhau i adolygu'r holl Safonau bob blwyddyn y dylai newid mewn dull fod yn seiliedig ar dystiolaeth, bod angen goruchwyliaeth reolaidd, a bod cefnogaeth i ddull wedi'i dargedu'n well sy'n ystyried perfformiad hanesyddol. Dywedodd un ymatebydd y dylem adolygu'r holl Safonau bob blwyddyn, o leiaf lle nad yw rheoleiddiwr wedi cwrdd â'r holl Safonau yn y flwyddyn flaenorol. Roedd pryder, pe bai lleihad yn y cwmpas, na fyddai risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi, ac y dylem ystyried effaith newid posibl mewn dull ac a yw adolygiadau perfformiad blaenorol wedi awgrymu'r posibiliad na fyddai risgiau wedi eu nodi pe na baent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

“Gall lleihau cwmpas adolygiadau arwain at beidio nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg neu at yr Awdurdod yn dod yn llai cyfarwydd â gwaith y rheolyddion.” (Unite)

- 3.7. Roedd awgrymiadau pellach yn cynnwys dull mwy targedig, gyda Safonau nad ydynt wedi eu bodloni yn cael eu hystyried y flwyddyn ganlynol, dull targedig ond gydag adolygiadau llawn bob ychydig flynyddoedd, a nodi meysydd risg i asesu a oedd angen adolygiad perfformiad llawn.

Cwestiwn 4 – Pe byddem am newid ein dull, ai dyma'r ffactorau cywir i ni eu hystyried wrth bennu cwmpas adolygiadau? Oes yna unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

- 4.1. Yn ein dogfen ymgynghori, fe archwiliom sut olwg fyddai ar ddull gwahanol. Rhestron ffactorau a allai ddynodi lefel is o adolygiad:
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn ymwybodol o ac yn delio gyda'r risgiau sy'n codi ar gyfer y proffesiwn
 - Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn adolygu ei berfformiad ei hun yn gywir yn rheolaidd ac yn gweithredu yn erbyn pryderon
 - Mae'r rheoleiddiwr yn bodloni dangosyddion perfformiad allweddol priodol ac yn dilyn ei gynllun busnes
 - Nid yw'r rheoleiddiwr wedi gwneud unrhyw newidiadau arwyddocaol i brosesau neu bolisiâu
 - Nid yw'r set data a ddarparwyd gan y rheoleiddiwr yn awgrymu amrywiaethau niweidiol difrifol mewn perfformiad
 - Nid yw gwybodaeth gan randdeiliaid yn awgrymu pryderon difrifol
 - Ni nododd yr adolygiad perfformiad blaenorol unrhyw bryderon parthed y Safonau perthnasol.
- 4.2. Gwnaethom hefyd amlinellu ffactorau a allai awgrymu angen am adolygiad agosach:
- Risgiau newydd neu arwyddocaol yn codi o amgylchedd ymarfer neu ofal iechyd y cofrestrdyddion, yn arbennig ble na ymddengys bod y rhain yn cael sylw
 - Tystiolaeth nad oedd y rheoleiddiwr yn bodloni dangosyddion perfformiad allweddol priodol neu dargedau eraill (fel gwaith a sefydlwyd yn ei gynllun busnes)
 - Tystiolaeth o ddirywiad mewn perfformiad yn erbyn y Safonau, fel tystiolaeth o bryderon penodol, neu os yw'r rheoleiddiwr yn methu bodloni ei dargedau ei hun (fel y rhai a sefydlir yn ei gynllun busnes)
 - Prosesau a gweithdrefnau newydd mewn meysydd sy'n berthnasol i'n Safonau
 - Pryderon difrifol wedi eu mynegi gan randdeiliaid
 - Pryderon wedi eu nodi mewn adolygiadau perfformiad blaenorol.
- 4.3. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ai dyma'r ffactorau cywir i'w hystyried ac a oedd unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu hystyried. Cawsom 20 ymateb i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys gan yr holl reolyddion. Roedd dau ymatebydd yn cytuno â'r ffactorau a ddisgrifiwyd gennym, cytunodd 16 ond dywedont fod mwy i'w ystyried a darparodd ddau ymateb cymysg.
- 4.4. Dywedodd saith rheoleiddiwr wrthym fod mwy i'w ystyried. Roedd rhai yn cytuno â'r dull eang ond yn teimlo bod angen mwy o fanylion, er enghraifft, gallai fod rheswm da dros i rheoleiddiwr fethu â chyrraedd ei dargedau ei hun. Rhybuddiodd sawl rheoleiddiwr rhag creu 'cymhellion gwrthnysig', gan nodi y

gallai newid neu arloesedd gael ei annog pe bai'n sbarduno adolygiad. Dadleuodd un arall na ddylai newid a weithredir gan reoleiddiwr ofyn am adolygiad o reidrwydd, a nododd un arall na fyddai newidiadau mewn perfformiad o reidrwydd yn nodi pryderon a bod angen i'r dyfarniad fod yn gymesur.

- 4.5. Dywedodd rheoleiddiwr arall wrthym ei fod yn cytuno y dylai'r Awdurdod asesu sut mae rheolyddion yn monitro risg, ond y dylai hyn fod yn wahanol i rôl y Cyngor, sy'n dal y rheoleiddiwr yn atebol. Cwestiynodd dau reoleiddiwr sut y byddai'r Awdurdod yn cael y dystiolaeth sydd ei hangen i wneud asesiadau o'r fath, gydag un yn nodi'r effaith adnoddau ar y rheolyddion a'r trothwyon ar gyfer penderfynu a oes angen adolygiad.
- 4.6. Awgrymodd sawl sefydliad feysydd i'w hystyried ymhellach. Cytunodd un sefydliad y gallai nodi newid fel rheswm dros adolygiad atal newidiad ac arloesedd. Roedd eraill o'r farn y dylid ystyried risgiau eang ar draws y sector, yn ogystal â risgiau sy'n benodol i reoleiddiwr. Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer ffactorau eraill i'w hystyried roedd ystyried sut mae rheolyddion yn ymgysylltu â staff, sut mae rheolyddion yn ymateb i bryderon ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a sut mae rheoleiddiwr yn defnyddio ei ddylanwad i fynd i'r afael â materion diwylliannol a sefydliadol. Nododd sefydliad arall, yng ngoleuni diwygio rheoliadol, y gallai fod gan reolyddion ddull mwy ystwyth a hyblyg yn y dyfodol, ac y dylid defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth, gan gynnwys defnyddio adborth rhanddeiliaid i bennu cwmpas adolygiadau.

“Byddai'n well gennym i'r PSA fod yn fwy targedig yn ei ddull. Dylai fod yn edrych ar faterion penodol i broffesiwn sy'n codi o bryd i'w gilydd ac ymatebion y rheoleiddiwr perthnasol ” (RCN)

- 4.7. Daeth yr ymatebion cymysg a gawsom gan reolyddion ac roeddent yn cynnwys cwestiynu a ddylem ddefnyddio set ddata i bennu amrywiadau mewn perfformiad a rhybuddio yn erbyn defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol gan mai'r rheolyddion sy'n diffinio'r rhain. Roedd pryder hefyd y gallai rhai ffactorau beri i'r Awdurdod edrych ar feysydd sy'n ymwneud â pherfformiad sefydliadol sydd y tu hwnt i gylch gwaith rheoleiddio statudol y rheoleiddiwr, ac y gallai edrych ar dystiolaeth ehangach gynyddu adnoddau a chost i'r rheolyddion.
- 4.8. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r dull presennol barhau, ond y gallai'r ffactorau a restrir lywio lefel yr adolygiad o bob Safon.

Cwestiwn 5 – Pe byddem yn gweithredu system fel y disgrifiwyd uchod, ydych chi'n cytuno y dylid tybio y dylai'r Awdurdod adolygu'r holl Safonau'n weithredol ar ysbeidiau rheolaidd? Beth ydych chi'n feddwl fyddai cyfnod amser priodol?

- 5.1. Gwnaethom gydnabod yn ein dogfen ymgynghori, os na edrychwn ar berfformiad yn erbyn yr holl Safonau yn rheolaidd, mae perygl na fydd risg sy'n dod i'r amlwg neu berfformiad gwael yn cael ei nodi. Awgrymom y gallem

fabwysiadu rhagdybiaeth y dylem archwilio perfformiad rheoleiddiwr yn rheolaidd. Gofynnem i'r ymatebwyr a ydynt yn cytuno â'r dull hwn a beth fyddai amserlen briodol. Cawsom 23 ymateb i'r cwestiwn hwn.


- 5.2. Roedd mwyafrif y rheolyddion o'r farn y byddai adolygiad bob pum mlynedd yn rhesymol. Awgrymodd un y gellid ystyried newidiadau yn y sector, y proffesiwn a'r rheoleiddiwr wrth bennu'r amserlen ar gyfer adolygiad. Awgrymodd un arall y dylid edrych ar rai Safonau risg is ar draws yr holl reolyddion trwy adolygiadau thematig.
- 5.3. Dywedodd un rheoleiddiwr efallai na fyddai angen gosod amlder adolygu os cymerir dull targedig sy'n seiliedig ar risg, ond cydnabu y gallai adolygiad wedi'i drefnu fod yn ddefnyddiol nes bod model o'r fath wedi'i sefydlu'n dda. Dywedodd un arall wrthym fod dull cymesur yn seiliedig ar dystiolaeth yn well nag un gydag amserlenni mympwyol. Clywsom awgrym hefyd y dylid cynnal rhywfaint o asesiad o feysydd risg is flwyddyn ar ôl blwyddyn.

“Os yw'r dull arfaethedig wedi'i dargedu ac yn seiliedig ar risg yn gweithio'n iawn yn y ffordd a ddisgrifir, ac yn cynnwys y mesurau diogelwch priodol..., yna byddai'n ymddangos yn ddiangen ymgorffori adolygiad rheolaidd o'r holl Safonau. Fodd bynnag, byddem yn dal i ddisgwyl gweld rhywfaint o adolygiad ac asesiad o'r meysydd 'risg is' flwyddyn ar ôl blwyddyn, er mwyn cynnal darlun cytbwys o'n perfformiad cyffredinol.” (GPhC)

- 5.4. Roedd gan y sefydliadau eraill y clywsom ganddynt farn gymysg. Roedd un o'r farn y dylid defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda rhai Safonau'n cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd nag eraill. Awgrymodd un arall y dylid gosod llinellau amser ar gyfer adolygu pob Safon, wedi'i bennu yn ôl risg. Dywedodd un y byddai angen i'r broses fod yn ystwyth i ymateb i risg, a dywedodd un arall fod yr amserlen yn ystyriaeth bwysig wrth gadw hyder yn y rheoleiddiwr a'r Awdurdod. Barn gyffredinol y sefydliadau y clywsom ganddynt oedd y dylid adolygu'r holl Safonau o leiaf bob dwy i dair blynedd, a bod pum mlynedd yn rhy hir.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylem gyflwyno prosesau monitro fel y disgrifiwyd uchod? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr awgrymiadau hyn?

- 6.1. Gwnaethom nodi yn ein dogfen ymgynghori y gellir lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â lleihau cwmpas ein hadolygiadau gyda phroses fonitro, yn enwedig lle rydym yn ymwybodol o risgiau sylweddol a phenodol, a lle rydym yn nodi risgiau mawr i ddiogelu'r cyhoedd.



- 6.2. Atebodd pedwar ar hugain o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd y mwyafrif, o bob grŵp, yn cytuno â'n cynnig. Cydnabu dau ymatebydd y byddai proses fonitro yn lliniaru'r risgiau o adolygiadau llai aml. Rhybuddiodd ymatebydd arall y gallai cyflwyno proses fonitro symud y gwaith sy'n ymwneud ag adolygu perfformiad ar hyn o bryd i ran arall o'r broses.

“Byddem yn cefnogi proses fonitro lle mae risgiau difrifol wedi’u nodi, ar yr amod bod ganddo nodau clir a’i fod wedi’i ddylunio’n gymesur i gyflawni’r nodau hynny.” (GDC)

- 6.3. Clywsom awgrymiadau y gallai monitro gael ei bennu gan risg sy'n gysylltiedig â'r proffesiynau penodol a pherfformiad blaenorol. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd wrthym nad oedd yn credu y dylid cyfyngu monitro i fethiannau a nodwyd yn flaenorol.
- 6.4. Roedd adborth arall yn cefnogi proses fonitro, ond gyda dull mwy systematig o gasglu adborth a gwell ymgysylltiad â rhai sydd wedi cofrestru a chyrrff proffesiynol. Dywedodd un ymatebydd wrthym hefyd sut y gallai proses fonitro gefnogi gwelliant parhaus.
- 6.5. Dywedodd dau reoleiddiwr na fyddent yn cefnogi proses fonitro, gan gyfeirio at yr effaith ar adnoddau i reolyddion.
- 6.6. Dywedodd ymatebwyr eraill wrthym eu bod yn deall y rhesymeg dros broses fonitro ffurfiol ond bod angen gwybodaeth bellach arnynt ar sut fyddai'n gweithio. Nododd dau ymatebydd nad oedd yn glir sut y byddai'r broses yn wahanol i'r dull presennol, a nododd dau'r effaith bosibl ar adnoddau rheolyddion.

“Rydym yn gefnogol o’r syniad ond nid yw’n glir i ni sut mae hyn yn wahanol i’r oruchwyliaeth gyfredol o reolyddion a ddarperir gan yr adolygiad perfformiad cyfredol a phwerau ymchwilio arbennig sydd gan yr Awdurdod.” (GMC)

Cwestiwn 7 – A ydym wedi nodi’r meysydd cywir o’n dull sydd angen i ni ddatblygu yn y maes hwn? Oes yna unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

- 7.1. Yn ein papur ymgynghori ystyriom y ffordd orau o nodi risgiau i ddiogelwch y cyhoedd a hyder y cyhoedd trwy’r broses adolygu perfformiad. Fe amlinellom feysydd yr oeddem yn meddwl oedd yn bwysig i hyn, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwella ein sylfaen dystiolaeth, datblygu ein dealltwriaeth o risgiau penodol i broffesiwn, cyflwyno adolygiadau thematig a sicrhau ffocws ar ganlyniadau. Gofynnem i ymatebwyr wneud sylwadau ynghylch a oeddem wedi nodi’r meysydd cywir yn hyn o beth.
- 7.2. Cawsom 26 ymateb i’r cwestiwn hwn a nododd 23 ein bod wedi nodi’r meysydd cywir, ond dywedodd mwyafrif y rhain fod mwy i’w ystyried. Roedd cefnogaeth inni ddatblygu ein dealltwriaeth o risgiau penodol i broffesiwn.

“Rydym yn cytuno’n gryf bod angen i’r PSA ddeall risgiau penodol i broffesiwn a’r cyd-destun gwahanol y mae’r gwahanol broffesiynau’n gweithredu ynddo...Bydd y ddealltwriaeth sector yma’n arbennig o bwysig ar gyfer goruchwyllo PSA yn effeithiol o’r proffesiynau gofal iechyd llai proffil uchel y tu hwnt i feddygaeth a nyrsio.” (Cymdeithas yr Optometryddion)

- 7.3. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar sut y dylid nodi ac asesu risg. Awgrymodd un ymatebydd y gallai fod heriau i gyflawni hyn; dywedodd un arall y byddai angen i ni ystyried sut i bwysu a mesur tystiolaeth o wahanol ffynonellau yn ein hasesiad o risg ac ailadroddodd rhai bwysigrwydd ystyried risgiau mewn perthynas â newidiadau i broffesiynau. Clywsom hefyd y dylai amseroldeb, wrth ddadansoddi ac adrodd, fod yn ganolbwynt wrth weithredu prosesau i nodi risg. Nododd un rheoleiddiwr fod risgiau critigol wedi codi o’r pandemig: y cysylltiad rhwng lles gweithiwr proffesiynol ac ansawdd gofal cleifion, ac effeithiau anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar gynaliadwyedd y gweithlu ac ansawdd gofal cleifion.
- 7.4. Awgrymodd un rheoleiddiwr y dylem ystyried sut y gallai adolygiad perfformiad gefnogi diwylliant o ddiogelwch a dysgu, a sut y gall ganolbwyntio orau ar ganlyniadau gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol. Nododd hefyd y gallai gwelliant gael ei ategu trwy gyfeirio at arferion da.
- 7.5. Roedd cefnogaeth inni adolygu'r set ddata, canolbwyntio mwy ar grwpiau agored i niwed a hygyrchedd, a chanolbwyntio ar ganlyniadau, gan ystyried tystiolaeth ymchwil a deallusrwydd. Clywsom gefnogaeth ar gyfer sgysiau

mwy agored a rheolaidd ar draws rheolyddion a'r angen i ystyried cyrff proffesiynol a rhai sydd wedi cofrestru fel rhanddeiliaid.

- 7.6. Rhoddodd rhai ymatebwyr sylwadau pellach, er enghraifft nad yw canolbwyntio ar ganlyniadau bob amser yn briodol oherwydd bod rhai problemau yn tarddu o brosesau a gall tynnu sylw at faterion proses o'r fath hefyd gefnogi newid deddfwriaethol. Clywsom awgrymiadau hefyd y dylem ystyried y duedd i reolyddion gyfeirio achosion yn ôl at gyflogwyr i'w hymchwilio, ac y dylem hefyd edrych yn agosach ar lywodraethu rheolyddion. Roedd rhai amheuan ynghylch defnyddio adolygiadau thematig, sut y byddent yn ffitio i'r broses a sut y byddent yn ychwanegu gwerth.

Cwestiwn 8 – Sut fyddai'r ffordd orau i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn ymwybodol o risgiau allweddol i ddiogelu'r cyhoedd? A oes yna unrhyw dystiolaeth arall y dylem ei sicrhau i hysbysu ein hadolygiadau perfformiad?


- 8.1. Roedd cefnogaeth ar gyfer ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid gan bob grŵp o ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys sgyrsiau rheolaidd â mwy o ffocws gyda rheolyddion, cysylltu â chyrrff proffesiynol i ddeall themâu o ymholiadau a phryderon, adborth gan sampl o unigolion cofrestredig sydd wedi bod trwy'r broses addaswydd i ymarfer, ymgysylltu â rhai sydd wedi cofrestru trwy ddigwyddiadau a holiaduron mwy strwythuredig i gael adborth am risgiau penodol i broffesiwn. Roedd un ymatebydd hefyd yn cefnogi mwy o waith polisi ac ymchwil.
- 8.2. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r Awdurdod asesu sut mae rheolyddion yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac awgrymodd un arall y gallai'r Awdurdod adolygu'r ymchwil mae rheolyddion yn ei gyflawni gyda chleifion a rhai sydd wedi cofrestru.
- 8.3. Dywedodd un rheoleiddiwr wrthym fod gan y rheolyddion fynediad at eu rhanddeiliaid a gwell dealltwriaeth ohonynt, ac y gellid defnyddio hyn i ddatblygu cysylltiadau'r Awdurdod â rhanddeiliaid. I'r gwrthwyneb, dywedodd un ymatebydd y dylid ymgysylltu'n annibynnol o'r rheolyddion gan fod risgiau o fynd trwy'r rheolyddion.
- 8.4. Dywedodd sawl ymatebydd mai budd pwysig o gynyddu ymgysylltiad fyddai mwy o welededd o'r Awdurdod a'i rôl, ac felly mwy o hyder yn y system reoleiddio broffesiynol. Awgrymodd un ymatebydd y gellid codi ymwybyddiaeth o rôl yr Awdurdod trwy gyfarfodydd ac ymgynghoriadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai rheolyddion wneud rôl yr Awdurdod yn glir i'r rhai y mae'n eu cofrestru. Clywsom hefyd y gallai mwy o ymgysylltu helpu egluro materion a nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella.
- 8.5. Clywsom ei bod yn ymddangos nad oes cynrychiolaeth ddigonol ar gyfer barn cleifion ac achwynwyr a bod eu cyfranogiad nhw, yn ogystal â'r rhai a gofrestrir, yn bwysig.

- 8.6. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer tystiolaeth arall y gallem ddefnyddio yn cynnwys coladu data gan reolyddion am risgiau a berir gan broffesiynau a ffactorau eraill, ymgysylltu â grwpiau cleifion i ddeall mwy am y data sydd ganddynt, a mewnbwn mwy ansoddol gan randdeiliaid yn ogystal â'r dystiolaeth feintiol bresennol. Gall data sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff rheolyddion, absenoldeb salwch ac arolygon staff fod yn ddefnyddiol gan fod diwylliant rheoleiddiwr yn ffactor pwysig yn eu perfformiad.
- 8.7. Clywsom y dylai ein prosesau geisio cyfranogiad gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys chwythwyr chwiban, ac y dylem ystyried sut i gynnwys y rheini ag anghenion cyfathrebu a'r rheini mewn grwpiau bregus.

“Mae amddiffyniad y cyhoedd a hyder y cyhoedd yn dilyn o reoleiddio effeithiol, gweladwy. Rhaid i'r broses PSA fod yn drylwyr a cheisio cyfranogiad yr holl randdeiliaid gan gynnwys chwythwyr chwiban a chleifion sydd â phrofiad o godi cwynion.” (Aelod o'r cyhoedd)

Cwestiwn 9 – A ddylen ni gadw'r system ddeuol neu fabwysiadu dull mwy amwys?

- 9.1. Gwnaethom gydnabod yn ein papur ymgynghori, er bod y system bresennol, lle rydym yn penderfynu a yw Safon yn cael ei bodloni ai peidio, yn glir, gall fod yn offeryn di-awch. Nodom efallai na fyddai'r dull yn adlewyrchu naws perfformiad rheoleiddiwr, megis a yw'n gwella neu'n dirywio, neu pan fydd Safon yn ymdrin â sawl agwedd ar berfformiad. Gwnaethom gydnabod y gall y system hon roi argraff gamarweiniol o berfformiad; gall yr holl Safonau sy'n cael eu 'bodloni' awgrymu nad oes lle i wella. Nodom y gellir defnyddio'r system fel ffordd o gymharu rheolyddion.
- 9.2. Cawsom 25 ymateb i'r cwestiwn hwn ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid mabwysiadu dull mwy arloesol. Roedd un rheoleiddiwr a dau sefydliad arall o blaid cadw'r system ddeuaidd gyfredol.



9.3. Dywedodd y rhai o blaid cadw'r system bresennol wrthym ei bod yn amlwg, yn cael ei chefnogi gan fanylion yn y naratif ynghylch a yw rheolyddion yn gweithio uwchlaw'r lefel a ddisgwylir, ac mae'n caniatáu cymariaethau rhwng blynedd.

9.4. Roedd saith rheoleiddiwr o blaid newid i ddull newydd. Er eu bod yn cydnabod bod y system ddeuaidd yn glir, a bod y manylion hynny wedi'u cynnwys yn naratif yr adroddiad, roeddent yn dadlau efallai na fyddai rhanddeiliaid yn nodi manylion ein canfyddiadau ac y byddai dull mwy cignoeth yn cefnogi dysgu a gwella. Roedd rhai eisiau mwy o dryloywder wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys deall trothwyon.

9.5. Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi dull mwy arloesol. Fe awgrymont y gall system ddeuaidd roi argraff ffug am berfformiad rheolyddion, er enghraifft lle mae Safon yn cael ei bodloni ond mae pryderon, a allai awgrymu dirywiad mewn perfformiad a gafodd ei guddio gan yr asesiad bod y Safon wedi'i bodloni.

“Mae dull deuaidd yn creu perygl o gelu gwaethygiad...Os yw Safon wedi ei marcio fel ‘bodlonwyd’, ond fisoedd yn ddiweddarach fe ddatgelir bod yna awgrymau o bryderon o ran y Safon hon, mae yna risg cynyddol i ddiogelu'r cyhoedd.” (The Challenging Behaviour Foundation).

9.6. Pwysleisiodd rhai'r angen am gydbwysedd rhwng naws a cholli eglurder, yn ogystal â bod yn glir i'r cyhoedd pan na chyrraedd Safon neu pan nad yw'r rheoleiddiwr yn perfformio i'r lefel a ddisgwylir.

- 9.7. Canmolodd dau ymatebydd y Ciplun yr ydym yn ei gyhoeddi fel atodiad i'r adroddiad ac awgrymu y gellid datblygu'r Crynodeb Gweithredol ymhellach.

Cwestiwn 10 – Pe byddem yn mabwysiadu dull gwahanol, pa ddull amgen fyddech chi'n ei ffafrio a pham?

- 10.1. Cawsom 27 ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 11 yn cefnogi cynllun graddio o ryw fath. Fodd bynnag, nid oedd consensws clir ynglŷn â sut y gallai hyn edrych. Awgrymodd rhai ddull 'coch, ambr, gwyrdd', eraill dull pedwar cam a rhai system sgorio rifiadol. Teimlai ymatebwyr y byddai'r rhain yn darparu mwy o eglurder, y byddai'r cyhoedd yn eu deall yn hawdd ac y byddent yn adlewyrchu lle mae perfformiad yn gymysg, yn newid neu lle mae meysydd i'w gwella. Cafwyd awgrym hefyd y gallai graddfa symudol fod yn ddefnyddiol, neu ddull cyfunol lle mae rhai Safonau'n cael eu hasesu gan ddefnyddio system ddeuaidd tra bod eraill yn cynnwys naratif mwy manwl. Nododd ymatebwyr hefyd, waeth beth yw'r system a gyflwynwyd, bod yn rhaid i'r fethodoleg a'r trothwyon fod yn glir a dylai'r iaith a ddefnyddir feithrin diwylliant o ddiogelwch, dysgu a gwella.
- 10.2. Nid oedd gan rai ymatebwyr unrhyw ffafriaeth glir. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn bwysig nodi ystyr pob sgôr, er enghraifft, a yw'n ofynnol i reoleiddiwr weithredu lle penderfynir ar sgôr is. Nododd eraill y dylid cael pwerau cryfach i atal methiannau parhaus, a phan fydd Safon 'heb ei bodloni', mae angen iddo fod yn glir a yw'r rheoleiddiwr yn perfformio'n is na'r safon a ddisgwylir.
- 10.3. Nodwyd bod angen i'r dull adlewyrchu pwrpas yr adolygiad perfformiad ac y dylai hybu'r ymddygiadau y mae'r broses yn ceisio eu cyflawni, er enghraifft diogelu'r cyhoedd a chefnogi gwelliant. Nododd un ymatebydd y bydd deall y cynulleidfaoedd ar gyfer yr adroddiadau yn allweddol i hyn.
- 10.4. Dywedodd ymatebydd arall wrthym na fyddai'n cefnogi system 'coch, ambr, gwyrdd' gan fod hyn yn creu amwysedd lle mae perfformiad yn cael ei asesu ar y lefel 'ambr', a rhaid i'r asesiad roi barn ar ddigonolrwydd perfformiad. Dywedodd yr ymatebydd hwn wrthym hefyd y gellid gwella tryloywder trothwyon neu faich y prawf, ac y gallai model pedair haen fod yn briodol os na ellir darparu golwg gliriach o'r hyn sy'n cyfateb i 'fodloni' neu 'heb ei fodloni'.
- 10.5. Dywedodd un ymatebydd wrthym y dylai dull newydd ddarparu gwell gwybodaeth am feysydd gwendid a risg rheoleiddio, a dywedodd un arall y dylai ganolbwyntio ar feysydd arfer da a gwelliant.

Cwestiwn 11 – A fyddai'r newidiadau hyn yn cefnogi'r rheolyddion i ddysgu o'n gwaith a gwaith y rheolyddion eraill, fel bod y cyhoedd wedi ei ddiogelu'n well?


- 11.1. Yn ein dogfen ymgynghori buom yn trafod sut y gallwn sicrhau bod ein hadolygiadau perfformiad yn gwella gwaith y rheolyddion ac yn cefnogi gwelliant. Gwnaethom gydnabod bod ein hadroddiadau adolygiad perfformiad yn ddisgrifiadol yn bennaf ac mai ein ffocws fu nodi a yw'r Safonau'n cael eu bodloni, yn hytrach na nodi arfer da.

- 11.2. Gwnaethom nodi hefyd bod rhai rheolyddion wedi dweud wrthym y dylem fod yn fwy rhagweithiol wrth nodi arfer da a meysydd i'w gwella a nodwyd pedair ffordd y gallem fynd i'r afael â hyn:
- Gallem fod yn fwy penodol o ran nodi perfformiad cryf gan reolyddion unigol. Byddai hyn yn ffordd i nodi arferion da ar gyfer gweddill y sector
 - Gallem wneud argymhellion ffurfiol i reolyddion unigol ynghylch sut ddylent wella prosesau
 - Gallem ddarparu argymhellion i'r sector. Mae'n debygol y byddai'r rhain yn argymhellion lefel uchel, fwy na thebyg o ran risgiau sy'n cwmpasu'r sector gyfan neu broblemau sy'n gyffredin i nifer o reolyddion. Nid yw'n glir i ni y byddai adolygiad perfformiad o un rheoleiddiwr unigol y sail fwyaf priodol ar gyfer gwneud argymhellion o'r fath, ond credwn y gallai adolygiadau thematig ddarparu cyfle i ni archwilio risgiau ar draws y sector ac y gallai'r rhain arwain at argymhellion
 - Rydym hefyd yn ystyried y gallai ein rôl wrth nodi, rhannu a chefnogi arfer da gynnwys amrediad eang o weithgareddau tu hwnt i nodi arferion da yn ein hadroddiadau adolygiad perfformiad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cefnogi gweithio ar draws rheoleiddio, ymgysylltu â'r rheolyddion trwy seminarau a gwaith tebyg.
- 11.3. Cawsom 23 ymateb i'r cwestiwn hwn, a chytunodd 16 ymatebydd y byddai'r newidiadau hyn yn cefnogi gwelliant. Croesawodd llawer o reolyddion fwy o waith yn y maes hwn a rhoi sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn. Dadleuodd sawl rheoleiddiwr, fodd bynnag, mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i nodi sut i wella perfformiad, felly dylai argymhellion fod yn ddigon agored i'r rheoleiddiwr benderfynu sut i fynd â nhw ymlaen, a dylid fframio argymhellion fel 'gallai', nid 'dylai'. Roedd rhai rheolyddion o'r farn y dylai'r Awdurdod wneud mwy i gefnogi dysgu a gwella ond nid oeddent o'r farn mai cyhoeddi argymhellion ffurfiol oedd y ffordd i wneud hyn oherwydd bod rheolyddion yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i wella.
- 11.4. Clywsom gan sefydliadau y byddai ein hawgrymiadau yn herio rheolyddion i wella, annog dysgu a rhannu gwybodaeth ac y byddai'n gwella cysondeb. Fodd bynnag, nododd rhai y dylid ystyried yr heriau a'r cyd-destunau y mae'r rheolyddion yn gweithio ynddynt, a dylid ystyried y gwahaniaethau rhwng rheolyddion.
- 11.5. Nid oedd un rheoleiddiwr yn cytuno y byddai ein hawgrymiadau yn cefnogi gwella, a bod ffyrdd gwell o wneud hyn na thrwy adolygu perfformiad, megis defnyddio fforymau rheoleiddio presennol a chanolbwyntio ar wella a dysgu yn gyffredinol.
- 11.6. Awgrymodd adborth arall y gallai'r cyfnodau amser maith ar gyfer ein hadroddiadau fod yn rhwystr i gefnogi gwelliant, y byddai gwneud adroddiadau'n fwy hygyrch yn cefnogi dysgu ac y gallai adroddiad trofswaol sy'n dod â chanfyddiadau ynghyd fod yn ddefnyddiol. Clywsom hefyd y byddai effeithiolrwydd yr awgrymiadau yn dibynnu a fyddai'r gwaith ychwanegol dan

sylw yn arafu adrodd, ac a oes gan yr Awdurdod yr arbenigedd angenrheidiol. Nododd un ymatebydd hefyd mai arweinyddiaeth a llywodraethu yw'r ffactorau sy'n gyrru sefydliad a'i ffocws.

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n credu y byddai adolygiadau thematig yn ein cynorthwyo yn ein craffu o'r rheolyddion ac yn hybu ein rôl diogelu'r cyhoedd?

12.1. Cawsom 24 ymateb i'r cwestiwn hwn ac, fel y gwelir o'r siart isod, roedd y mwyafrif yn cefnogi adolygiadau thematig. Tra'n eu cefnogi, tynnodd tri rheoleiddiwr sylw at y goblygiadau adnoddau iddynt ac y dylid cynnal adolygiadau o'r fath mewn 'man diogel' ac na ddylent fod yn rhan o'r asesiad adolygiad perfformiad. Nodwyd hefyd y gallai asesiad o ymatebion rheolyddion i ganfyddiadau adolygiadau thematig gael ei gynnwys yn Safon 4² ac y dylai'r Awdurdod ystyried ei rôl yn y grwpiau traws-reoleiddio sy'n bodoli eisoes.



12.2. Dywedodd y sefydliadau eraill y clywsom ganddynt y gallai adolygiadau thematig fod yn ddefnyddiol i asesu ymatebion i ddigwyddiadau fel y pandemig a Brexit, ac y gallent fod yn arbennig o ddefnyddiol pe bai staff y rheolyddion ac aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan. Clywsom hefyd y gallai adolygiadau thematig gael eu targedu at feysydd risg uchel ac y byddent yn cysylltu â dull mwy cignoeth o asesu'r Safonau, megis peidio ag edrych ar yr

² Mae'r rheoleiddiwr yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano ac yn ystyried goblygiadau canfyddiadau ymchwiliadau cyhoeddus ac adroddiadau perthnasol eraill am faterion rheoleiddio gofal iechyd.

holl Safonau bob blwyddyn neu 'raddio' Safonau. Fel rhai o'r rheolyddion, amlygodd sefydliadau eraill yr effaith ar adnoddau'r rheolyddion, yn ogystal â'r amser y gallai ei gymryd i'w gwblhau. Dywedodd un rheoleiddiwr na fyddai'n cefnogi cyflwyno adolygiadau thematig oherwydd y baich ar reolyddion ac oherwydd y gellid cyflawni buddion adolygiadau thematig drwy'r broses adolygu perfformiad.

- 12.3. Clywsom bryderon hefyd ynghylch heriau wrth asesu sut mae'r rheolyddion yn gweithio, o ystyried y gwahaniaethau rhyngddynt a'r cyd-destunau y maent yn gweithio ynddynt, a rhybudd na ellir defnyddio adolygiadau thematig i ddisodli'r craffu a ddarperir gan adolygiadau perfformiad unigol.
- 12.4. Awgrymwyd rhai pynciau ar gyfer adolygiadau thematig, megis y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan reolyddion i wella cysondeb a thegwch, rhagfarn anymwybodol a gwahaniaethu, ac archwilio sut mae rheolyddion yn gweithio gyda sefydliadau eraill, megis y Comisiwn Ansawdd Gofal.
- 12.5. Codwyd y goblygiadau adnoddau i'r rheolyddion gan sefydliadau eraill yn ogystal â chan y rheolyddion. Cododd ymatebwyr gwestiynau hefyd ynglŷn â sut y byddai adolygiadau thematig yn gweithio o ystyried gwahanol gylchoedd adolygu perfformiad, sut y byddai'r pynciau'n cael eu dewis ac y gallai'r effaith fod yn gyfyngedig heb bwerau i gyfarwyddo newidiadau. Clywsom y gallai adolygiadau thematig gael eu defnyddio i sicrhau sicrwydd ar draws rheolyddion ac i nodi meysydd arfer da neu risgiau sy'n dod i'r amlwg, ond bod peryglon i'w hosgoi.

“Mae elfen o risg bod adolygiadau thematig yn gosod cyfres o argymhellion de facto ar ben ymroddiadau a rhaglenni gwelliant cyfredol y rheolyddion trwy nodi arferion da dan un rheoleiddiwr sy'n dod yn argymhelliad ymhlyg i eraill fabwysiadu.” (GMC)

Cwestiwn 13 – Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a sefydlir yn y papur hwn yn debygol o'u cael r eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion.

- 13.1. Tynnodd y mwyafrif o reolyddion sylw at effaith ar adnoddau a chost. Nododd un rheoleiddiwr y dylem gydbwyso effaith cael system sy'n cynnwys proses adolygu safonol, monitro blynyddol ac adolygiadau thematig.
- 13.2. Dywedodd corff cynrychioliadol wrthym y gallai newidiadau i amllder adolygiadau a'r penderfyniadau sydd ar gael i'w gwneud gael effaith, oherwydd ei fod yn defnyddio'r adolygiadau perfformiad i lywio ei waith ei hun. Clywsom bryder hefyd y gallai gostyngiad yn amllder neu gwmpas adolygiadau gael effaith ar berfformiad y rheolyddion, ac o ganlyniad ar unigolion cofrestredig ac achwynwyr pe bai effeithiolrwydd ac amseroldeb gwaith addasrwydd i ymarfer yn dirywio.

- 13.3. Dywedodd un corff cynrychioliadol wrthym y gallai newidiadau i'r dull arwain at ymgysylltiad gwell a chaniatáu mwy o gyfraniadau at adolygiadau perfformiad ac adolygiadau thematig.
- 13.4. Awgrymodd rhai ymatebwyr ystyriaethau y dylem eu hystyried wrth asesu'r cynigion a oedd yn cynnwys sut y gallai'r broses gyfrannu'n gadarnhaol at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Clywsom hefyd fod cymesuredd ac ymgysylltu yn bwysig.

Cwestiwn 14 – A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

- 14.1. Tynnodd pedwar ymatebydd sylw at yr angen i sicrhau y dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid fod yn gynhwysol ac yn hygyrch, ac y dylid nodi y gallai fod angen cefnogaeth ar rai grwpiau i ymgysylltu. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd cyrraedd amrywiaeth o randdeiliaid, y tu hwnt i'r ddemograffeg nodweddiadol sy'n aml yn cymryd rhan.
- 14.2. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r Awdurdod edrych yn rheolaidd ar ei brosesau adolygu perfformiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys pob unigolyn, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 14.3. Dywedodd sawl ymatebydd y gallai gostyngiad mewn goruchwyliaeth effeithio ar unigolion neu grwpiau. Dywedodd un ymatebydd wrthym y gallai adolygiadau llai aml olygu gwirio prosesau rheolyddion yn llai aml mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac y gallai hyn fod yn niweidiol. Clywsom hefyd y gallai llai o oruchwyliaeth effeithio ar berfformiad addasrwydd i ymarfer rheolyddion, a gallai hyn yn ei dro effeithio ar rai grwpiau yn fwy nag eraill, megis grwpiau Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig sydd wedi'u gorgynrychioli mewn prosesau addasrwydd i ymarfer. Clywsom bryderon hefyd am gostau, ac y gallai cynnydd yn yr adnoddau sydd eu hangen effeithio ar unigolion cofrestredig, yn anghymesur o bosibl ar draws gwahanol grwpiau.

Y camau nesaf

Camau gweithredu uniongyrchol i wella'r broses

- 15.1. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth glir ar gyfer cyflymu cyhoeddi ein hadroddiadau, gwella ein hymgysylltiad â rheolyddion a rhanddeiliaid eraill a gwneud ein hadroddiadau'n gliriach. Mae cefnogaeth hefyd ar gyfer datblygu ein dealltwriaeth o risg.
- 15.2. Felly byddwn yn gwneud gwaith pellach fel y gallwn gyflwyno'r newidiadau canlynol o fis Ionawr 2022. Byddwn yn:
 - Gwneud mwy o waith yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o gyhoeddi ein hadroddiadau cyn pen 3 mis ar ddiwedd y cyfnod yr ydym yn adrodd

- Ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid
- Gwneud ein hadroddiadau yn gliriach ac yn fwy cryno a, lle bo hynny'n briodol, cynnwys argymhellion cymesur
- Datblygu ein dealltwriaeth o risg gan gynnwys risgiau penodol i broffesiwn a defnyddio hyn i lywio cwmpas ein hadolygiadau.

Cwmpas adolygiadau

- 15.3. Credwn y bydd yn bosibl gwneud newidiadau mwy radical i'r broses adolygu fel ein bod yn targedu ein hadolygiadau tuag at y meysydd gwaith hynny a'r rheolyddion hynny lle mae gennym dystiolaeth o bryderon. Mae hyn yn debygol o olygu, ar ôl adolygiad llawn o reoleiddiwr (a allai fod yn fwy manwl na'n hadolygiadau cyfredol), byddwn yn fodlon ei fod yn perfformio'n dda, y byddem yn edrych yn fanwl ar ei berfformiad dim ond lle roedd dystiolaeth o ddirywiad mewn perfformiad neu bryderon eraill, neu os oes newid sylweddol yn ei brosesau y gallai fod angen eu hadolygu. Yna byddem yn cynnal adolygiad llawn arall ar ôl cyfnod amser a bennwyd ymlaen llaw, yn debygol rhwng tair i bum mlynedd. Byddai hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ein hadolygiadau ar feysydd a rheolyddion lle nododd ein hadolygiad manwl bryderon. Byddem, wrth gwrs, yn parhau i fonitro perfformiad y rheolyddion trwy ein sylfaen dystiolaeth, sy'n cynnwys ein set ddata, gwaith y rheoleiddiwr ei hun a gwybodaeth gan randdeiliaid, a byddem yn adrodd yn flynyddol ar hyn i'r Senedd.
- 15.4. Rydym o'r farn bod hyn yn debygol o'n galluogi i ganolbwyntio ein hadnoddau yn fwy cymesur a lleihau'r baich ar reolyddion sy'n perfformio'n dda wrth gynnal goruchwyliaeth. Bydd angen i ni wneud gwaith pellach i sefydlu sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol, y goblygiadau adnoddau i ni a'r rheolyddion a'r ffordd orau o weithredu, o gofio'r camau diwygio rheoliadol sydd ar ddod.
- 15.5. Felly, byddwn yn datblygu model o sut y byddai'r broses yn gweithio. Ein nod yw ymgynghori ar hyn gyda rhanddeiliaid yn ystod yr hydref a gwneud penderfyniad ar weithredu ym mis Ionawr 2022.

Gwneud penderfyniadau

- 15.6. Nodom adborth am ein dull deuaidd 'bodlonwyd/ni fodlonwyd' tuag at asesu ac ystyried yr opsiynau yn ofalus. Er inni nodi'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid, nid oedd unrhyw ddull amgen clir a ffafrir a byddai'r opsiynau amgen yn dwyn eu hanfanteision eu hunain gan gynnwys diffyg eglurder a mwy o gymhlethdod o ran gwneud penderfyniadau. Ar ben ei hun, efallai na fydd system raddio fwy cignoeth yn darparu mwy o eglurder ynghylch cyfeiriad teithio, gan gynnwys gwelliannau a phryderon sy'n dod i'r amlwg. Nid oes 'ateb cywir' amlwg.
- 15.7. Felly fe wnaethom benderfynu parhau â'r dull 'bodlonwyd/ni fodlonwyd' oherwydd ei fod yn darparu datganiad clir ynghylch a yw rheoleiddiwr wedi cyrraedd lefel dderbyniol o berfformiad. Byddwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch y dull hwn trwy waith datblygu pellach. Byddwn yn diweddarau strwythur ein hadroddiadau i wneud y rhesymau dros ein

penderyniadau yn fwy eglur fel bod hyn yn glir i'r holl randdeiliaid. Byddwn hefyd yn gwneud ein prosesau yn fwy tryloyw fel bod y ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau yn gliriach. Yn ein hadroddiadau, byddwn yn nodi'n fwy penodol unrhyw bryderon sydd gennym am berfformiad yn dirywio ac yn gwneud argymhellion ynghylch gwelliannau posibl. Byddwn hefyd yn gwneud mwy o waith i gynorthwyo a rhannu dysgu, gan gynnwys tynnu sylw at ble mae rheolyddion yn perfformio'n dda.

- 15.8. Rydym o'r farn, yn y modd hwn, y gallwn fod yn gliriach ynghylch manylion perfformiad rheoleiddiwr wrth ddarparu eglurder ynghylch ein barn am lefel gyffredinol y perfformiad.

Adolygiadau thematig

- 15.9. Rydym o'r farn bod rôl i'r Awdurdod wrth ddarparu trosolwg o broblemau unigol yn y sector a darparu arweiniad. Mae yna amrywiaeth o offer y gallwn eu defnyddio i gyflawni hyn. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau perfformiad, prosiectau ar faterion unigol (er enghraifft ein Canllaw ar Wrandawiadau Rhithiol diweddar) ac adolygiadau thematig. Byddwn yn anelu at fabwysiadu'r broses fwyaf addas a chymesur ar gyfer pob mater wrth iddo godi.